




GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



Blwyddyn o ddysgu

Mewnwelediadau o astudiaethau achos costau byw

Sut mae asiantaethau a phartneriaethau'n gwneud gwahaniaeth yn yr argyfwng costau byw



Adeiladu Cymru
lachach
Building a Healthier
Wales

Mai 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg



Cydnabyddiaeth

Cyhoeddir yr astudiaethau achos hyn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ran Adeiladu Cymru Iachach - grŵp o bobl sy'n arwain sefydliadau ledled Cymru a gwblhaodd ei waith ym mis Mawrth 2026.

Hoffem ddiolch i gyn-aelodau Adeiladu Cymru Iachach am eu cyfraniadau cyson o Uwchgynhadledd Costau Byw Cymru Gyfan 2023 hyd at yr adroddiad gwerthuso terfynol hwn.

Diolch i Bartneriaeth Cymunedau Dyfeisgar a Thasglu Tlodi Powys a gymerodd ran yn y gwerthusiad ystwyth ar gyfer yr adroddiad astudiaethau achos cychwynnol.

Diolch i bawb a gymerodd yr amser i gynnig yr wybodaeth ddiweddaraf am yr astudiaethau achos, gan gynnwys Paul Neave a Stephanie Smith (Adeiladu Cymru Iachach), Jo Garsden (Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf), Faye Patton (Ysbyty i Gartref Iachach), Sophie Buckley (Cadw'n Gynnes, Cadw'n Iach yn Sir Benfro), Anna Morgan (Cyllidebu Cyfranogol yng Ngwent), Joanna Beynon a Louise Denham (CF61 Galw Heibio Cymunedol) a Katie Gooderham (Cadog's Corner).

Diolch i'r rhai a adolygodd yr adroddiad cyn ei gyhoeddi.

Awduron

Emma Girvan, Dr Alex Walker a Rebecca Evans, Uned Penderfynyddion Ehangach Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, ar ran Grŵp Cydlynw Adeiladu Cymru Iachach.

Hawlfraint

© 2026 Grŵp Cydlynw Adeiladu Cymru Iachach ac Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gellir atgynhyrchu'r deunydd sydd yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored

www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr amod ei fod yn cael ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid nodi cydnabyddiaeth i Grŵp Cydgysylltu Adeiladu Cymru Iachach ac Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hawlfraint y trefniant teipograffyddol, y dyluniad a'r cynllun yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.



Astudiaethau Achos Costau Byw

Blwyddyn o Ddysgu Crynodeb

Mae prosiectau sy'n mynd i'r afael â chostau byw yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl sy'n byw mewn tldi.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r gwersi allweddol o chwe phrosiect a ddechreuodd yn 2022/23 a oedd yn cynnig cymorth angenrheidiol iawn i'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan yr argyfwng costau byw. Roedd y chwe phrosiect hyn wedi ymddangos yn flaenorol mewn adroddiad astudiaeth achos costau byw gwreiddiol (Jones, 2024) a oedd yn tynnu sylw at sut roedd sefydliadau a phartneriaethau gwahanol yn helpu pobl yn ystod yr argyfwng costau byw.

Rydym wedi ailedrych ar yr astudiaethau achos hynny ac wedi darparu adroddiad diweddar lle rydym wedi cipio'r gwersi allweddol o'r prosiectau ers eu sefydlu ac wedi'u cyflwyno fel mewnwelediadau a chyfleoedd i gefnogi unrhyw un sy'n gweithio ar brosiectau tebyg, neu'n eu cynllunio, drwy dynnu sylw at y gwaith da sy'n cael ei gyflawni.

Mewnwelediadau

- Mae gweithio gyda'n gilydd yn creu cymorth llyfnach a mwy cysylltiedig
- Mae cyfranogiad cymunedol yn ategu cymorth ac yn dyfnhau perthnasedd lleol
- Mae cyfathrebu clir a llwybrau syml yn gwneud cymorth yn hawdd ei gael
- Mae timau hyblyg, â chymorth da, yn ymateb yn effeithiol i anghenion sy'n newid
- Gellir cyflawni effaith ystyrion drwy gyllid â chyfyngiad amser
- Mae tystiolaeth dda a phrofiad bywyd yn arwain at benderfyniadau cryf

Cyfleoedd

- Cryfhau cydweithio ar draws y system gyfan
- Adeiladu ffyrdd hirdymor a sefydlog o weithio
- Blaenoriaethu gwaith ataliol a datblygu gwaith gweithredu dan arweiniad y gymuned
- Cyfathrebu'n glir a chynyddu gwelededd
- Defnyddio tystiolaeth i lywio polisi a buddsoddiad

Astudiaethau Achos

Adeiladu Cymru Iachach - cynllun peilot cynyddu incwm

Awdurdod Cyfunol Manceinion Fwyaf - cyngor iechyd a llesiant

Ysbyty i gartref iachach - cymorth rhyddhau gan gynnwys gwelliannau i'r cartref a chyngor

Cadw'n Gynnes, Cadw'n Iach yn Sir Benfro - mannau cynnes a chanolfannau cymunedol

Cyllidebu cyfranogol yng Ngwent - cyfranogiad cymunedol wrth ariannu mesurau costau byw

Prosiect bwyd Bro Morgannwg yn Llanilltud Fawr a Cadog's Corner - pantri bwyd cymunedol (rhoi'r hyn y gallwch) a dosbarthiadau



Contents

Cyflwyniad	5
Canfyddiadau Allweddol	6
Astudiaethau Achos	7
Adeiladu Cymru Iachach	10
Awdurdod Cyfunol Manceinion Fwyaf	11
Ysbyty i Gartref Iachach	12
Cadw'n Gyntes, Cadw'n Iach yn Sir Benfro	13
Cyllidebu Cyfranogol yng Ngwent	14
Prosiect Bwyd Bro Morgannwg yn Llanilltud Fawr a Cadog's Corner	15
Atodiad A	17
Atodiad B	18



Cyflwyniad

Yn dilyn y cynnydd sydyn ym mhrisiau ynni yn 2022, cynhaliodd y grŵp Adeiladu Cymru Iachach Uwchgynhadledd Costau Byw Cymru Gyfan ym mis Mawrth 2023, gan roi sylw mewn trafodaeth genedlaethol i effeithiau'r argyfwng ar bobl a chymunedau. Yn dilyn yr Uwchgynhadledd, cyhoeddodd Adeiladu Cymru Iachach set o astudiaethau achos yn tynnu sylw at sut roedd sefydliadau a phartneriaethau'n cefnogi pobl drwy'r argyfwng costau byw.

Dangosodd yr astudiaethau achos y gall prosiectau sy'n mynd i'r afael â phwysau costau byw wneud gwahaniaeth gwirioneddol ac ystyrlon i bobl. Roeddent yn adlewyrchu cyfraniadau gan amrywiaeth o bartneriaid ac yn cynnwys meysydd fel bwyd, ynni, tai, incwm, dyled, iechyd meddwl, ac iechyd a gofal. Mae'r enghreifftiau'n ymwneud â gweithgarwch lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, ar draws lleoliadau trefol a gwledig, ac yn cynnwys gwaith dan arweiniad awdurdodau lleol, y GIG, busnesau preifat, a sefydliadau gwirfoddol a chymunedol. Tynnodd yr astudiaethau achos sylw at yr hyn a oedd wedi helpu cymunedau mewn gwirionedd a chynigiodd y profiadau a gasglwyd ddysgu ymarferol i sefydliadau sy'n gweithio i gefnogi'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan yr argyfwng costau byw.

Yn 2025, cynhaliwyd gwerthusiad ystywyth i sefydlu sut y defnyddiwyd yr adroddiad ac i ddeall beth oedd partneriaid yn teimlo fyddai'n helpu i sicrhau bod yr astudiaethau achos yn cyrraedd cynulleidfao eang, ac yn apelio ati. Dywedwyd wrthym y byddai set wedi'i diweddaru o astudiaethau achos yn werthfawr i gydweithwyr sy'n chwilio am ddysgu o'r byd go iawn ac enghreifftiau cyfredol o'r hyn sy'n gweithio.

Mae'r adroddiad hwn yn arddangos y gwaith gwych sy'n digwydd ar draws y prosiectau, gan gofnodi diweddariadau, dysgu ar y cyd, a'r cyfleoedd newydd sy'n cael eu creu. Clywsom enghreifftiau pwerus o sut mae prosiectau'n dylanwadu ar bolisi a phrosesau gwneud penderfyniadau. Mae ein hastudiaethau achos wedi'u diweddaru yn dwyn y mewnwleidiadau hyn ynghyd i gefnogi gwelliant parhaus ac arloesedd yn y dyfodol.

Mae'r cwestiynau a ofynnwyd i lywio diweddariad 2026 i'w gweld yn Atodiad A.

Wrth i bwysau costau byw gynyddu yn 2026, mae'r adnodd hwn yn dwyn ynghyd yr hyn sy'n gweithio a'r potensial ar gyfer datblygiad pellach, gan helpu cydweithwyr a phartneriaid i lunio eu harfer, ysbrydoli meddwl newydd, a gwella ymdrechion ar y cyd i gefnogi cymunedau.

I weld yr adroddiad astudiaeth achos gwreiddiol, bwriwch olwg arno [yma](#).

Noder: nid yw'r holl astudiaethau achos gwreiddiol wedi'u cynrychioli yn yr adroddiad hwn.



Y canfyddiadau allweddol

Mewnwelediadau

Mae gweithio gyda'n gilydd yn creu cymorth llyfnach a mwy cysylltiedig

Mae gweithio mewn partneriaeth yn galluogi gwasanaethau i gyrraedd mwy o bobl a darparu cymorth cydlynol, holistaidd. Pan fydd rolau'n glir a chyfathrebu'n llifo'n dda, mae sefydliadau'n cysylltu'n ddi-dor ac mae pobl yn profi taith llyfnach drwy'r system. Mae cryfhau dealltwriaeth a chydlynw ar y cyd yn creu hyd yn oed mwy o gyfleoedd i wasanaethau gydweithio'n effeithiol.

Mae cyfranogiad cymunedol yn ategu cymorth ac yn dyfnhau perthnasedd lleol

Mae ymgysylltu â phobl leol—trwy wirfoddolwyr, mannau cymunedol a gweithgareddau lleol—yn helpu i feithrin ymddiriedaeth ac yn sicrhau bod cymorth yn teimlo'n ystyrlon ac wedi'i wreiddio yn anghenion y gymuned. Drwy brosesau hyrwyddo cryf a ffyrdd creadigol o gasglu adborth, gall gwasanaethau gyrraedd hyd yn oed mwy o gymunedau a deall profiadau a blaenoriaethau trigolion lleol yn well.

Mae cyfathrebu clir a llwybrau syml yn gwneud cymorth yn hawdd ei gael

Mae negeseuon syml, gwybodaeth hygyrch, a phwyntiau mynediad clir yn helpu pobl i ddod o hyd i gymorth yn gyflym ac yn hyderus. Pan fydd prosesau cyfathrebu mewnol yn gryf, mae timau'n cydlynw'n fwy effeithiol, gan gyfrannu at brofiadau cadarnhaol cyson i'r rhai sy'n ceisio cymorth.

Mae timau hyblyg, â chymorth da, yn ymateb yn effeithiol i anghenion sy'n newid

Mae gwasanaethau sy'n addasu'n gyflym mewn sefyllfa dda i ymdopi â heriau sy'n datblygu. Pan fydd gan dimau'r staff, y gwirfoddolwyr a'r sgiliau arbenigol sydd eu hangen arnynt—ynghyd ag adnoddau ymarferol—gallant gynnal darpariaeth o ansawdd uchel ac addasu'n ddidrafferth wrth i amgylchiadau newid.

Gellir cyflawni effaith ystyrlon drwy gyllid sydd wedi'i gyfyngu gan amser

Mae'r prosiectau hyn yn dangos y gallwn wneud gwahaniaeth enfawr i'r bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu, yn enwedig pan fydd timau'n fedrus, yn hyblyg ac wedi'u cysylltu'n agos â'u cymunedau. Mae setliadau ariannu hirdymor, cyson a rhagweladwy o fudd i gamau gweithredu dyfnach a mwy ataliol.

Mae tystiolaeth dda a phrofiad bywyd yn arwain at benderfyniadau cryf

Mae data o ansawdd uchel a straeon go iawn yn helpu arweinwyr i ddeall beth sy'n gweithio a ble i fuddsoddi er mwyn cael yr effaith fwyaf. Pan fydd gan brosiectau fynediad at ddata lleol clir a ffyrdd syml a diddorol o gasglu adborth, gallant ddangos angen, mesur cynnydd, a rhannu mewnwelediadau pwerus am brofiadau cymunedol.



Cyfleoedd

Cryfhau cydweithio ar draws y system gyfan

Dod â sefydliadau ynghyd—gwasanaethau cynghori, meddygon teulu, grwpiau cymunedol, archfarchnadoedd a busnesau lleol—er mwyn creu rhwydwaith cymorth di-dor. Drwy gysylltu rolau, rhannu gwybodaeth, a chydlyn llwybrau, gall partneriaid ei gwneud hi'n haws i bobl symud rhwng gwasanaethau ac ehangu eu dylanwad ar y cyd â'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn lleol ac yn genedlaethol.

Gwreiddio hyn sy'n gweithio er mwyn cefnogi darpariaeth gynaliadwy

Mae timau a phartneriaid yn parhau i addasu a darparu cymorth effeithiol er gwaethaf y pwysau sy'n deillio o gyllid tymor byr. Mae casglu a rhannu gwersi o brosiectau peilot a phrosiectau llwyddiannus yn helpu i wreiddio dulliau effeithiol mewn arfer bob dydd ac yn llywio strategaethau lleol a chenedlaethol.

Blaenoriaethu gwaith ataliol a datblygu gwaith gweithredu dan arweiniad y gymuned

Gweithredu'n gynt er mwyn lleihau pwysau yn ddiweddarach—helpu pobl i gael budd-daliadau'n gynt, hyrwyddo proses bontio ddiogel a chefnogol adref o'r ysbyty, a meithrin sgiliau ymarferol fel cyllidebu a choginio. Buddsoddi mewn mentrau a gynhelir gan y gymuned y mae pobl yn ymddiried ynddynt, a defnyddio lleisiau cymunedol a phrofiadau bywyd yn rhagweithiol er mwyn llywio polisiâu a gwasanaethau cryfach a mwy ymatebol.

Cyfathrebu'n glir a chynyddu gwelededd

Rhannu negeseuon clir a chyson fel bod mwy o bobl yn gwybod pa gymorth sydd ar gael a pham mae'n bwysig. Defnyddio straeon pwerus, astudiaethau achos, a chyflawniadau gweladwy er mwyn tynnu sylw at effaith, meithrin ymddiriedaeth, a denu partneriaid, gwirfoddolwyr a chyllid newydd. Cryfhau gwasanaethau allgymorth fel y gall cymunedau adnabod a chael mynediad at gymorth yn hawdd.

Defnyddio tystiolaeth i lywio polisi a buddsoddiad

Casglu a rhannu data cryf, canfyddiadau gwerthuso, a straeon bywyd go iawn i ddangos effaith ar draws y system gyfan. Defnyddio'r dystiolaeth hon i hyrwyddo dulliau ataliol, cydgysylltiedig, cyflwyno achos cryf dros fuddsoddiad hirdymor, a chefnogi cyflwyno cynlluniau peilot llwyddiannus yn ehangach.



Astudiaethau Achos

Ymyrraeth

Tudalen

1. Adeiladu Cymru Iachach

10

Peilot cynyddu incwm

2. Awdurdod Cyfunol Manceinion Fwyaf

11

Cyngor iechyd a llesiant

3. Ysbyty i gartref iachach

12

Cymorth rhyddhau gan gynnwys gwelliannau i'r cartref a chyngor

4. Cadw'n Gynnes, Cadw'n Iach yn Sir Benfro

13

Mannau cynnes a chanolfannau cymunedol

5. Cyllidebu cyfranogol yng Ngwent

14

Cyfranogiad cymunedol wrth ariannu mesurau costau byw

6. Prosiect bwyd Bro Morgannwg yn Llanilltud Fawr a Cadog's Corner

15

Pantri bwyd cymunedol (rhoi'r hyn y gallwch) a dosbarthiadau



Case studies


	Ymyrraeth	Lleoliad	Thema	Partneriaid
1	Adeiladu Cymru Iachach Cynllun peilot cynyddu incwm yng Nghwm Taf Morgannwg	Cwm Taf Morgannwg: wedi'i dargedu at bobl ifanc	Incwm a dyled	- Cyngor ar Bopeth - Gwasanaethau cyhoeddus lleol
2	Awdurdod Cyfunol Manceinion Fwyaf Cyngor iechyd a llesiant	Awdurdodau lleol lluosog: wedi'u targedu at bobl hŷn	Incwm a dyled Iechyd meddwl a llesiant	- Awdurdodau lleol - Elusen genedlaethol - GIG - Heddlu
3	Ysbyty i gartref iachach Cymorth rhyddhau gan gynnwys gwelliannau i'r cartref a chyngor	Ysbytai ledled Cymru	Iechyd a gofal	- Ysbytai - Busnesau lleol - Gofal cymdeithasol
4	Cadw'n Gyntes, Cadw'n Iach yn Sir Benfro Mannau cyntes a chanolfannau cymunedol	Cyngor gwirfoddol Sir Benfro, manau cymunedol lleol	Bwyd Ynni Tai	- Cyngor gwirfoddol - Gwirfoddolwyr lleol - Cyllidwyr rhanbarthol a chenedlaethol
5	Cyllidebu cyfranogol yng Ngwent Cyfranogiad cymunedol wrth ariannu mesurau costau byw	Cymunedau lleol ledled Gwent	Iechyd meddwl a llesiant	- Awdurdodau lleol - Bwrdd gwasanaethau cyhoeddus - Elusennau
6	Prosiect bwyd Bro Morgannwg yn Llanilltud Fawr a Cadog's Corner Pantri bwyd cymunedol (rhoi'r hyn y gallwch) a dosbarthiadau	Cymunedau lleol ar draws Llanilltud Fawr a Cadog's Corner	Bwyd Ynni Tai	- Awdurdod lleol - Elusennau lleol - Ysgolion



1. Adeiladu Cymru Iachach

• Cynllun peilot cynyddu incwm yng Nghwm Taf Morgannwg

Nid yw'r prosiect penodol wedi'i dargedu yn rhedeg mwyach, ond mae'r Gronfa Gyngori Sengl yn parhau i ddarparu cyngor lles cymdeithasol. Mae ei fodel yn cynnwys Partneriaid Cyngor, Mynediad ac Atgyfeirio—sefydliadau cymunedol sy'n helpu pobl i ddeall a chael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae partneriaid sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn cynnwys Llamau (sy'n cefnogi pobl ifanc sy'n profi digartrefedd neu sy'n cael eu cam-drin), Prifysgol Abertawe (sy'n cefnogi mynediad at wasanaethau iechyd meddwl), Barnardo's (sy'n cefnogi gofalwyr ifanc), ac eraill. Yn Abertawe, mae'r Tîm Cymorth Ieuencid Ethnig yn cynnig cyngor ar ystod eang o faterion lles cymdeithasol i bobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches.



Ers lansio'r Gronfa Gyngori Sengl ym mis Ionawr 2020, mae gwasanaethau (hyd at fis Mawrth 2025) wedi cefnogi mwy na 388,000 o bobl o gymunedau difreintiedig ac ymylol, gan eu helpu i sicrhau dros £208.9 miliwn mewn incwm ychwanegol a dileu £66.3 miliwn mewn dyled. Mae cyllid ar gyfer y Gronfa Gyngori Sengl wedi'i gytuno am dair blynedd arall o fis Ebrill 2025, gan ddangos ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaethau gwybodaeth a chynghor.

Mewnwelediadau

- Mae dull cydweithredol o ddarparu gwasanaethau cyngori yn gwella canlyniadau. Mae model y Gronfa Gyngori Sengl yn darparu cymorth cyfannol, cynhwysfawr, gan fynd i'r afael â'r broblem sy'n ymglyfwyno ac anghenion lles cymdeithasol ehangach er mwyn cyflawni canlyniadau mwy cynaliadwy.
- Nod y Gronfa Gyngori Sengl yw cryfhau cydweithio rhwng darparwyr cyngor er mwyn gwella cynllunio a darparu gwasanaethau. Mae'n targedu grwpiau sy'n aml yn ceisio cymorth ar adeg argyfwng yn unig.
- Ni all cyllid Llywodraeth Cymru ar ei ben ei hun ddiwallu'r galw llawn am gyngor cyffredinol ac arbenigol. Mae cefnogi pobl sydd â phroblemau cymhleth, pendant yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyllidwr yng Nghymru gydlynw ei gyfraniadau'n well.

Cyfleoedd

- Mae'r peilot yn dangos bod model y Gronfa Gyngori Sengl yn cyrraedd grwpiau blaenoriaeth yn effeithiol
- Ni all gwasanaethau'r Gronfa Gyngori Sengl ddiwallu'r holl alw. Mae angen cydweithio ehangach ymhlith cyllidwyr cyngor er mwyn sicrhau y gall pobl gael mynediad at y cymorth sydd ei angen er mwyn datrys eu problemau lles cymdeithasol mewn modd cynaliadwy.
- Mae'r dyfarniad cyllid tair blynedd ar gyfer darparwyr y Gronfa Gyngori Sengl o fis Ebrill 2025 yn dangos bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod gwerth cyllid tymor hwy. Mae hyn yn galluogi cynllunio gwell, partneriaethau cryfach, cyflenwi gwasanaethau'n fwy hyblyg, a chyfraddau gwell o ran cadw staff diolch i well diogelwch swyddi.



2. Awdurdod Cyfunol Manceinion Fwyaf, Cyngor Stockport a Chyngor Trafford

Cyngor iechyd a llesiant

Mae'r grŵp ymateb costau byw misol wedi datblygu i fod yn Grŵp Gwydnwch Ariannol Byw'n Dda Manceinion Fwyaf bob deufis, gan ddod â'r un rhanddeiliaid ynghyd gyda ffocws parhaus ar wydnwch ariannol yn ehangach. Mae hyn yn cynnwys hawlio budd-daliadau, y gronfa cymorth aelwydydd, a chefnogi trigolion i reoli dyled.

Mae'r grŵp yn parhau i hyrwyddo'r canllaw printiedig Winterwise a gafodd ei gynhyrchu gan Independent Age sy'n cael ei ddiweddarau bob blwyddyn law yn llaw â phartneriaid. Yn ogystal â hyn, mae'r grŵp yn hyrwyddo sesiynau hyfforddi gan Independent Age ar Gredyd Pensiwn a Lwfans Gweini a hyrwyddo eu sesiynau hyfforddi Winterwise ar-lein am ddim i weithwyr rheng flaen.

Nid yw'r rhaglen yn cynnal ymgyrch ychwanegu at Gredyd Pensiwn ar hyn o bryd ond mae'n canolbwyntio ar gynyddu'r nifer sy'n hawlio Lwfans Gweini trwy weithio gyda phractisiau meddygon teulu.

Mewnwelediadau

- Roedd partneriaeth ag Independent Age yn hynod effeithiol: Darparodd Awdurdod Cyfunol Manceinion Fwyaf rwydweithiau lleol a mynediad i drigolion hŷn, tra bod Independent Age wedi cyfrannu arbenigedd, adnoddau printiedig, a chyrhaeddiad cenedlaethol.
- Tynnodd yr ymgyrch hawlio Credyd Pensiwn sylw at raddfa'r budd-daliadau heb eu hawlio a dangosodd i arweinwyr fod llawer o drigolion incwm isel yn colli allan ar gymorth sylweddol. Fe wnaeth hyn ysgogi ymrwymiad gwleidyddol yn ystod argyfwng costau byw.
- Roedd cyllid a staffio cyfyngedig yn golygu bod y gwaith yn dibynnu'n fawr ar ewyllys da.
- Roedd mesur effaith yn anodd oherwydd nad oedd y tîm yn gallu cael mynediad at ddata lleol ar faint o bobl oedd yn hawlio Credyd Pensiwn.

Cyfleoedd

- Ysgogodd y prosiectau waith wedi'i dargedu gyda phractisiau meddygon teulu er mwyn cynyddu'r nifer sy'n hawlio Lwfans Gweini.
- Cafodd arweinwyr gwleidyddol ac uwch arweinwyr y cyngor eu synnu gan raddfa'r incwm heb ei hawlio ac roeddent wedi'u cymell i weithredu.
- Cyflwynodd Awdurdod Cyfunol Manceinion Fwyaf dystiolaeth i Bwyllgor Dethol Gwaith a Phensiynau Tŷ'r Cyffredin ar dlodi ymhlith pensiynwyr a rhoddodd dystiolaeth lafar mewn sesiwn pwyllgor ym Manceinion. Cyfarfu'r pwyllgor hefyd â thrigolion hŷn sy'n profi caledi ariannol.





3. Ysbyty i Gartref Iachach

Cymorth rhyddhau gan gynnwys gwelliannau i'r cartref a chyngor.

Mae'r prosiect yn parhau i redeg ar draws pum bwrdd iechyd yng Nghymru ac mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn yr un ffordd o hyd. Mae canlyniadau wedi'u diweddarw ers mis Mawrth 2023 yn cynnwys: 14,097 yn fwy o atgyfeiriadau, 7,882 yn fwy o wiriadau cartref iach, 1,440 o geisiadau llwyddiannus am fudd-dal sy'n ddibynnol ar brawf modd gwerth dros £5.2 miliwn yn flynyddol ar gyfer pobl hŷn, 20,245 o welliannau i'r cartref gwerth £3.8 miliwn.

Mewnwelediadau

- Mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol
- Er bod y cysyniad wedi cael ei brofi (ei dreialu yn 2019) mewn tri o'r pum bwrdd iechyd, mae'r gwasanaeth yn dal i gael ei ariannu'n flynyddol mewn rhai ardaloedd, gan adael y gwasanaeth mewn perygl cyson.

Cyfleoedd

- Rhaid ystyried cyflwr ac ansawdd tai yn gynt yn y broses cynllunio ar gyfer rhyddhau. Mae canllawiau rhyddhau o'r ysbyty yn sôn am addasiadau tai ond nid cyflwr tai - mae'n hanfodol bod cartrefi'n gynnes ac yn ddiogel i bobl hŷn gael eu rhyddhau iddynt, fel arall maent mewn perygl o gael eu derbyn i'r ysbyty eto.
- Mae'n hanfodol bod tai yn cael eu hystyried ym mhobman yng Nghymru fel offeryn rheoli risg, llwybr ataliol, a ffordd o wella effeithlonrwydd ysbytai - yn ogystal â gwella ansawdd bywyd pobl hŷn drwy ganiatáu iddynt adael yr ysbyty yn gynt, yn ôl i'w cartref eu hunain sydd wedi'i wneud yn ddiogel, yn gynnes ac yn hygyrch ar gyfer eu cyfnod gwella parhaus.
- Mae staff y rhaglen wedi rhoi tystiolaeth yn y Senedd i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar ei ymchwiliad i rôl awdurdodau lleol wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty. Er bod y rhaglen yn elusen, mae'r gwahoddiad yn dangos ei rôl hanfodol wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty, gwella llif cleifion a lleihau achosion o gleifion yn cael eu derbyn i'r ysbyty eto.





4. Cadw'n Gynnes, Cadw'n Iach yn Sir Benfro

Mannau cynnes a chanolfannau cymunedol

Mae Cadw'n Gynnes, Cadw'n Iach yn Sir Benfro yn parhau i gefnogi trigolion ledled Sir Benfro. Mae'r rhaglen yn cynnwys mannau cynnes a chroesawgar, cymorth a chyngor ar ynni, dyled ac arian, cymorth ar gyfer costau byw, a chyllid cymunedol. Fe'i cydlynir gan Hwb Cymunedol Sir Benfro mewn partneriaeth â Chyngor Sir Penfro, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro, Bwrdd Iechyd Hywel Dda, a'r sector gwirfoddol.

Eleni, mae mannau cynnes yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Penfro a'u gweinyddu gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro drwy Gronfa Gweithredu Cefnogi Cymunedau. Yn 2024–25, dosbarthodd Rownd 8 Cronfa Gweithredu Cefnogi Cymunedau Cronfa Mannau Cynnes Cymunedol £112,329.31 i 43 o brosiectau, gan gefnogi 4,266 o bobl trwy 542 o wirfoddolwyr a gyfrannodd 16,733 awr, gan arwain at £18,971.11 mewn arian ychwanegol. Arweiniodd hyn at ddarparu 1,408 o sesiynau mannau cynnes, gweini 13,592 o brydau poeth, a 21,958 o bobl yn cymryd rhan mewn sesiynau.

Mewnwelediadau

- Mae gwaith partneriaeth cryf ac un pwynt cyswllt syml yn gwneud cymorth yn haws i gael mynediad ato
- Mae cyfathrebu clir a chyson yn gwella ymwybyddiaeth o ble i ddod o hyd i gymorth
- Mae mannau cymunedol cynnes a chroesawgar yn hanfodol wrth ddarparu cymorth lleol
- Mae ffrydiau ariannu bach, hyblyg yn galluogi ymatebion arloesol, hyperleol
- Rhaid i gymorth effeithiol yn ystod y gaeaf fod yn holistaidd—gan fynd i'r afael ag anghenion ymarferol, cymdeithasol ac ariannol
- Mae seilwaith cymunedol sydd wedi'i gysylltu'n dda a gwirfoddolwyr ymroddedig yn caniatáu trefnu cyflym
- Fe wnaeth cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer Canolfannau Cynnes a darpariaeth bwyd roi'r cyfle ar gyfer camau gweithredu cydlynol, ond mae ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol yn cyfyngu ar gynllunio tymor hwy
- Roedd prosiectau Mannau Cynnes yn wynebu amserlenni byr, cyllidebau cyfyngedig a phwysau o ran gwirfoddolwyr/lleoliadau, ond eto ymatebodd grwpiau'n greadigol er mwyn cynnal cymorth hanfodol gan y gymuned

Cyfleodd

- Gallai Cronfa Gymunedol leol ganiatáu i fusnesau gefnogi mentrau cymunedol, ac mae trafodaethau ar y gweill ar fodel partneriaeth
- Mae angen cyllid prif ffrwd cynaliadwy ar gyfer Hwb Cymunedol Sir Benfro, sydd wedi profi ei werth fel gwasanaeth un pwynt mynediad
- Mae Strategaeth Mynd i'r Afael â Thlodi Sir Benfro yn cydnabod Cadw'n Gynnes, Cadw'n Iach fel ymateb amlasiantaethol mawr sydd wedi meithrin gwydnwch a chysylltedd cymunedol parhaol
- Mae cydweithio rhwng y sectorau statudol a gwirfoddol wedi cryfhau, ac mae ymrwymiad parhaus i gymorth cydlynol fel bod pobl yn derbyn y cymorth cywir ar yr amser cywir.

Cadw'n Gynnes, Cadw'n Iach yn Sir Benfro

Mae costau byw yn effeithio ar bawb.
Mae cymorth ar gael trwy Hwb Cymunedol Sir Benfro.
Ffoniwch 01437 723669 neu e-bostiwch
enquiries@pembrokeshirecommunityhub.org

Ymwelwch â
www.cysylltusirbenfro.cymru
A chliciwch ar
'Cadw'n Gynnes,
Cadw'n Iach'

Mae cymorth ar gael:

- Map o fanau cynnes Cymru trwy www.cysylltusirbenfro.cymru neu ffoniwch yr Hwb i ddod i hyd i'ch un agosaf.
- Gwybodaeth am ystod eang o gymorth costau byw.
- Eich cyflwyno â chymorth a gwasanaethau lleol a all eich helpu pan fydd arian yn iechu.
- Mynediad i ddata symudiol i gael mewn cysylltiad.

Un alwad dyna i gyd

Rydym yn recriario gwirfoddolwyr cymunedol, i sicrhau na fydd unrhyw un yn oer na'n newynog y gaeaf hwn - os oes gennych awr neu dŵy yn sbectol, yna ffoniwch ni, os gweithch yn dda.




5. Cyllidebu Cyfranogol yng Ngwent

Cyfranogiad cymunedol mewn ariannu mesurau cost byw

Mae Cyllidebu Cyfranogol yn parhau mewn rhannau o Gwent, gyda rhai ardaloedd wedi sefydlu sawl rownd o Gyllidebu Cyfranogol.

Mae brwdfrydedd o hyd ymhlith cymunedau i wneud cais am brosiectau a ariennir gan Gyllidebu Cyfranogol, a phleidleisio drostynt, ac mewn rhai ardaloedd, mae swm sylweddol o gyllid o hyd i'w ddyrannu i'r gymuned.



Mewnwelediadau

- Cadw'r meini prawf yn dynn iawn ar gyfer cynigion, fodd bynnag, gall hyn fod yn heriol pan fydd y penderfyniad ynghylch meini prawf cynigion yn cael ei wneud gan grŵp sy'n cynnwys aelodau'r gymuned.
- Mae Cyllidebu Cyfranogol yn dibynnu ar welededd cryf, egni a chyfathrebu clir. Pan fydd newidiadau staffio neu sefydliadol yn digwydd, gall momentwm leihau, gan wneud cynllunio parhad yn hanfodol.
- Mae'r broses Cyllidebu Cyfranogol yn aml yn gostus ac yn cymryd llawer o amser, gan ofyn am gapasiti staff sylweddol. Bu'n rhaid i rai ardaloedd ddod ag asiantaethau allanol yn rhan o bethau oherwydd sgiliau neu amser lleol cyfyngedig.
- Roedd amrywiadau blynyddol mewn cyllid Cyllidebu Cyfranogol yn effeithio ar faint o brosiectau y gellid eu cefnogi.
- Lleihaodd capasiti cyfyngedig a blaenoriaethau cystadleuol y sylw yr oedd ei angen ar Gyllidebu Cyfranogol.
- Roedd cydlynu mewnol weithiau'n aneglur, gyda rolau a disgwyliadau dryslyd, gan wneud i'r broses deimlo'n gymhleth, yn hir, ac yn ddud i staff a chymunedau.
- Roedd cynnal perthnasoedd cadarnhaol â grwpiau cymunedol nad oeddent yn cael eu hariannu yn anodd ac weithiau'n effeithio ar ymgysylltiad

Cyfleoedd

- Helpodd cyllid Cyllidebu Cyfranogol i greu asedau lles cymunedol newydd ac i nodi grwpiau a oedd yn anhysbys o'r blaen a oedd yn cynnig cymorth gwerthfawr.
- Parhaodd sawl prosiect y tu hwnt i'r cyllid Cyllidebu Cyfranogol cychwynnol wrth i'r broses gryfhau cysylltiadau â sefydliadau cymunedol, gan feithrin ymddiriedaeth a galluogi mwy o gyfranogiad cymunedol wrth bennu blaenoriaethau a llywio gweithgaredd Cyllidebu Cyfranogol yn y dyfodol.
- Roedd ymgysylltiad cryf mewn digwyddiadau Cyllidebu Cyfranogol, gyda llawer o gysylltiadau cadarnhaol wedi'u ffurfio.
- Mae'r gwaith wedi hyrwyddo prosesau gwneud penderfyniadau mwy cynhwysol, dan arweiniad y gymuned, gan ddangos gwerth cynnwys trigolion wrth flaenoriaethu adnoddau.
- Mae'n cefnogi sgysiau rhanbarthol ehangach am gyfranogiad a gwaith ataliol, gan gadarnhau llais y gymuned yn agendâu lles a seiliedig ar le Gwent.
- Byddai llywodraethu cryfach, cydlynu mewnol cliriach, a gwerthuso mwy cyson yn cynyddu effaith a dylanwad Cyllidebu Cyfranogol ar bolisi yn y dyfodol ymhellach.



6. Prosiect Bwyd Bro Morgannwg yn Llanilltud Fawr a Cadog's Corner

Pantri bwyd cymunedol (rhoi'r hyn y gallwch) a dosbarthiadau.

'Canolfan Galw Heibio Gymunedol CF61'

Mae Canolfan Galw Heibio Gymunedol fisol CF61 (a elwid gynt yn Hwb Mwy na Bwyd) yn dal i weithredu. Mewn ymateb i adborth gan randdeiliaid, mae'r tîm yn mireinio ei ddull o gynyddu ymwybyddiaeth a phresenoldeb, gan gynnwys datblygu Pecyn Cymorth Cyfathrebu i'w ddefnyddio gan sefydliadau partner, ac ail-frandio. Mae'r ganolfan galw heibio yn parhau i groesawu amrywiaeth o bartneriaid sy'n darparu cymorth personol ar amrywiaeth o bynciau gan gynnwys budd-daliadau a hawliadau, gofal plant, cyngor ar ddyledio, tai, tlodi tanwydd, byw'n iach a llesiant, cyflogaeth a datblygu CV. Lansiwyd menter Rhannu Bwyd newydd yn Sain Tathan ym mis Ionawr 2024, yn seiliedig ar y model CF61 llwyddiannus, er mwyn gwella mynediad at fwyd fforddiadwy ac iach. Mae cyllid hefyd wedi cefnogi prosiectau tyfu bwyd cymunedol, gan helpu grwpiau lleol i fuddsoddi mewn offer a chyfarpar a chreu cyflenwad mwy cynaliadwy o gynnyrch a dyfir yn lleol. Mae trefnau cyfathrebu yn y gymuned wedi gwella trwy hysbysfwrdd digidol a redir gan Gyngor y Dref, ochr yn ochr â dosbarthu ryseitiai, adnoddau cynllunio prydau bwyd a chwrs coginio ymarferol a gefnogodd drigolion—gan gynnwys teuluoedd o Wcrain wedi'u hadsefydlu—i feithrin hyder wrth baratoi prydau maethlon. Cynhaliodd partneriaid ŵyl fwyd gymunedol hefyd ym menter Rhannu Bwyd CF61 er mwyn dathlu cynnyrch lleol ac annog trigolion i roi cynnig ar gynhwysion newydd. Mae pecyn cymorth cyfathrebu wedi'i ddatblygu i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael, ac mae trafodaethau ar y gweill i archwilio sut y gellir ehangu a dyblygu'r gwaith hwn ar draws y sir ehangach.

Mewnwelediadau

- Mae cynnwys cyfnod prawf yn helpu i benderfynu ar y lleoliad gorau ar gyfer cymorth cofleidiol sy'n canolbwyntio ar y gymuned
- Mae cyfathrebu strategol yn parhau i fod yn hanfodol ar gyfer codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael, er y gall y deunyddiau effeithiol hyn gymryd peth amser i'w datblygu
- Dylid defnyddio cryfderau partneriaid yn effeithiol, gan gydnabod y gall rhai sefydliadau weithredu'n fwy hyblyg ac yn fwy ymatebol nag eraill
- Mae arolygon gwerthuso yn defnyddio llawer o adnoddau ac yn achosi risg o syrffed ar arolygon; mae'r prosiect yn mynd i'r afael â hyn drwy ddefnyddio arolwg bob dwy flynedd a chasglu adborth anffurfiol gan bartneriaid

Cyfleoedd

- Gan ddatblygu ar yr hyn a ddysgwyd o'r prosiect hwn sy'n cael ei arwain gan bobl ac sy'n seiliedig ar bartneriaeth, mae Gweithgor Diffyg Diogeledd Bwyd y Fro wedi'i sefydlu i archwilio'r dystiolaeth, nodi blaenoriaethau cyffredin, a llunio dull cydlynol ar draws y Fro
- Mae cyllid Loteri ychwanegol wedi'i sicrhau gan y Bartneriaeth Bwyd ar gyfer gweithgareddau lleol sy'n gysylltiedig â chynyddu mynediad at fwyd iach a fforddiadwy, ac mae trafodaethau ar y gweill er mwyn cynllunio lansiad y rhaglen yn ffurfiol yn 2026/27
- Derbyniodd Prosiect Bwyd Llanilltud Fawr Wobr Ystadau Cymru 2023 am ei waith rhagorol wrth reoli ystad gyhoeddus wedi'i theilwra i anghenion lleol
- Mae dysgu o'r prosiect wedi llywio Strategaeth Fwyd y Fro 2025–2030 sy'n ymddangos fel cam gweithredu allweddol yng Nghynllun Corfforaethol Cyngor Bro Morgannwg, Bro 2030
- Mae'r prosiect wedi llywio Cynllun Gweithredu Bwyd Da a Symud 2023–2025
- Tynnir sylw ato hefyd yn Adroddiad Blynnyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg
- Bydd mewnwelediadau a gwersi a ddysgwyd yn parhau i gael eu rhannu gyda'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn lleol er mwyn cryfhau dulliau o fynd i'r afael â diffyg diogeledd bwyd ledled y sir



'Model pantri cymunedol estynedig'

Mae gwasanaethau Cadog's Corner wedi parhau i dyfu. Mae pantri'r Big Bocs Bwyd bellach yn awgrymu bod unigolion yn rhoi rhodd o £5 fesul bag (10–20 o eitemau hanfodol, sy'n aml yn werth llawer mwy) ac mae'n parhau i roi bagiau i'r rhai mewn angen. Mae'n cefnogi tua 40 o aelwydydd bob wythnos ac yn ddiweddar dosbarthodd 20 o becynnau gofal o bethau ymolchi ac eitemau hanfodol sylfaenol.



Mae'r Good Food Café yn cynnig prydau bwyd yn ystod yr wythnos o fewn model man cynnes ac yn cefnogi 100–150 o bobl yr wythnos, gan helpu i leihau unigedd a gwella mynediad at fwyd maethlon. Mae Cadog's Corner yn parhau i weithio'n agos gydag Ysgol Gynradd Cadoxton, gan ddarparu: Sesiynau Cawl a Chân, sesiynau Ready Steady Cook, gweithgareddau bwyd a llesiant rhwng cenedlaethau, ryseitiau ar-lein wythnosol yn ymestyn dysgu i gartrefi, ac mae mwy o asiantaethau partner (e.e., tai a chymorth ariannol) bellach yn mynychu sesiynau yn y caffi er mwyn cynnig cymorth cofleidiol. Mae'r prosiect yn dangos effaith gref ar draws pob oedran, gan wella llesiant, hyder, gwybodaeth am fwyd, cysylltiad cymunedol, a gan leihau unigedd. Mae'r galw'n rhagori ar ddisgwyliadau, gan adlewyrchu llwyddiant ac angen lleol cynyddol. Mae Cadog's Corner yn parhau i fod yn weithgar yn y Grŵp Diffyg Diogeledd Bwyd, gan weithio gyda phartneriaid i ehangu'r ddarpariaeth, sicrhau mwy o gyflenwad bwyd, a chyrraedd mwy o drigolion wrth barhau â'i genhadaeth i fynd i'r afael â thlodi bwyd, unigedd a chaledi.

Mewnwelediadau

- Mae meithrin perthnasoedd cryf â'r gymuned, archfarchnadoedd a busnesau lleol yn hanfodol
- Mae gwrandao ar y gymuned yn sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i fod yn berthnasol, yn hygyrch ac yn ddibynadwy
- Mae darpariaeth gynaliadwy yn dibynnu ar gyllid a rhoddion parhaus
- Mae hyblygrwydd ac ymatebolrwydd yn caniatáu i wasanaethau dyfu law yn llaw â'r galw
- Roedd sicrhau mynediad dibynadwy at gynnyrch o ansawdd da a chynnal argaeledd gwirfoddolwyr yn heriau cynnar
- Her barhaus yw cydbwysu cymorth uniongyrchol â grymuso hirdymor.
- Mae dealltwriaeth gynyddol o systemau bwyd cynaliadwy a'r rôl y mae cyfranogiad cymunedol yn ei chwarae yn yr hyn y gellir ei gynnig yn her.
- Mae uwchsgilio gwirfoddolwyr ac aelodau'r gymuned yn parhau i fod yn hanfodol

Cyfleoedd

- Gan ddatblygu ar yr hyn a ddysgwyd o'r prosiect hwn sy'n cael ei arwain gan bobl ac sy'n seiliedig ar bartneriaeth, mae Gweithgor Diffyg Diogeledd Bwyd y Fro wedi'i sefydlu i archwilio'r dystiolaeth, nodi blaenoriaethau cyffredin, a llunio dull cydlynol ar draws y Fro
- Mae cyllid Loteri ychwanegol wedi'i sicrhau gan y Bartneriaeth Bwyd ar gyfer gweithgareddau lleol sy'n gysylltiedig â chynyddu mynediad at fwyd iach a fforddiadwy, ac mae trafodaethau ar y gweill er mwyn cynllunio lansiô'r rhaglen yn ffurfiol yn 2026/27
- Derbyniodd Prosiect Bwyd Llanilltud Fawr Wobr Ystadau Cymru 2023 am ei waith rhagorol wrth reoli ystad gyhoeddus wedi'i theilwra i anghenion lleol
- Mae dysgu o'r prosiect wedi llywio Strategaeth Fwyd y Fro 2025–2030 sy'n ymddangos fel cam gweithredu allweddol yng Nghynllun Corfforaethol Cyngor Bro Morgannwg, Bro 2030
- Mae'r prosiect wedi llywio Cynllun Gweithredu Bwyd Da a Symud 2023–2025
- Tynnir sylw ato hefyd yn Adroddiad Blynnyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg
- Bydd mewnwelediadau a gwersi a ddysgwyd yn parhau i gael eu rhannu gyda'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn lleol er mwyn cryfhau dulliau o fynd i'r afael â diffyg diogeledd bwyd ledled y sir



Atodiad A

Cwestiynau a ofynnwyd ar gyfer diweddariad 2026

1. A allwch chi roi diweddariad byr ar yr astudiaeth achos (gan gynnwys teitl gwreiddiol yr astudiaeth achos). (Os yw'r prosiect wedi dod i ben, soniwch am hynny yn eich geiriau eich hun)
2. Pa wersi allweddol a ddysgoch chi a allai helpu eraill sy'n gwneud gwaith tebyg? (Os na allwch ateb, nodwch hyn)
3. Beth oedd y prif heriau a wynebwyd yn ystod y camau cynllunio, gweithredu neu werthuso? (Os na allwch ateb, nodwch hyn)
4. Pa gyfleoedd neu argymhellion a ddaeth i'r amlwg o'r gwaith hwn, hyd yn oed os nad oedd modd ichi fynd ar eu trywydd? (Os na allwch ateb, nodwch hyn).
5. Sut mae'r gwaith wedi dylanwadu ar bolisi neu brosesau gwneud penderfyniadau ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol? (Os na allwch ateb, nodwch hyn)



Atodiad B

Adnoddau ychwanegol

[Hyfforddiant Winterwise: Cefnogi Pobl Hŷn yn Ystod y Gaeaf](#)

[Pecyn Cymorth Stockport ynglŷn â Hawlio Lwfans Gweini](#)

[Cafodd dull 'lle cyfan' Manceinion Fwyaf o ymdrin â thlodi pensiynwyr ei gydnabod mewn adroddiad nodedig](#)

[Tlodi Pensiynwyr: Heriau a Mesurau Lliniaru](#)

[Cadw'n Gynnes ac yn Iach yn Sir Benfro'r Gaeaf hwn](#)

[Map Croeso Cynnes o Sir Benfro](#)

[Rownd 8 Cronfa Gweithredu Cefnogi Cymunedau](#)

[Adroddiad Crynodeb Effaith Cronfa Gweithredu Cefnogi Cymunedau](#)

[Gwirfoddoli: Strategaeth ar gyfer Sir Benfro 2025-2030](#)

[Adroddiad Blynyddol Cadw'n Gynnes, Cadw'n Iach yn Sir Benfro 2023/24](#)

[Grŵp a Strategaeth Tlodi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro](#)

[Dewch i Goginio yn Llanilltud Fawr](#)

[Cynllun Corfforaethol Cyngor Bro Morgannwg 'Bro 2030'](#)

[Bwyd ar gyfer Ein Dyfodol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol](#)



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Astudiaethau Achos Costau Byw

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
PHW.Determinants@wales.nhs.uk



Adeiladu Cymru
Iachach
Building a Healthier
Wales